# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 15FED MAWRTH 2017 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheoli Busnes), N. George (Gwasanaethau Hamdden a'r Gymuned), D. T. Hardacre (Perfformiad a Rheoli Asedau), K. James (Adnewyddu, Cynllunio a Datblygiad Cynaliadwy), Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol), T.J. Williams (Priffyrdd, Cludiant a Pheirianneg) a R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau) ac N. Scammell (Cyfarwyddwraig Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn Bresennol:

S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygiad Trefniadaeth Dros Dro), S. Couzens (Prif Swyddog Tai), M. Lloyd (Rheolwr SATC ac Isadeiledd), S. Richards (Uwch Swyddog Cyllid), A. West (Rheolwraig Mynediadau ac Eithriadau Ysgolion), S. Mutch (Rheolwraig y Blynyddoedd Cynnar) C. Forbes-Thompson ( Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan y Cynghorydd K.V. Reynolds.

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd B. Jones ddatgan diddordeb yn yr eitem sy'n ymwneud ag Ail-broffilio'r Rhaglen SATC a Rhaglen Cyfalaf Cyfrif Refeniw Tai 2017/18. Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

### 3. CABINET – 1AF MAWRTH 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Mawrth 2017 (rhifau cofnod. 1 -6) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. CYNIGION BUDDSODDI I ARBED

Roedd yr adroddiad yn darparu'r Cabinet gyda manylion o ystod o gynigion ar gyfer cyllid ad-daladwy untro o'r arian Buddsoddi i Arbed wrth gefn.

Gofynnwyd i Benaethiaid Gwasanaeth gyflwyno cynigion ar gyfer cyllid uniaethir a fydd yn golygu arbedion refeniw arian parod presennol. Mae'r balans a ragwelir o'r arian Buddsoddi i Arbed wrth gefn ar 31ain Mawrth 2017 yw £477 mil.

Derbyniwyd cynigion sef cyfanswm o £668 mil, sy'n fwy na'r cyllid sydd ar gael o £191 mil. O ganlyniad, mae'r cynigion wedi cael eu hadolygu gan y Tîm Rheoli Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet/ Dirprwy Arweinydd dros Dai ac Aelod Cabinet/ Dirprwy Arweinydd dros Wasanaethau Corfforaethol. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer bidiau gwerth cyfanswm o £465 mil, a oedd yn cynnwys adnewyddu offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Rhisga (£160 mil), ychwanegu 3 Uned Glampio yn Ffordd Goedwig Cwmcarn (£124 mil), Ciosg Arlwyo i'w ddarparu yn y Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon (£20 mil), Paneli PV i gael eu gosod yng Nghanolfannau Hamdden Trecelyn a Rhisga (£113k mil) a Phaneli PV i gael eu gosod yn Depo Tir-y-Berth (£48 mil).

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi, er yr argymhellir i beidio â chefnogi ceisiadau ar gyfer Paneli PV ar Ysgol Gyfun Coed Duon ac Ysgol Gynradd Cwrt Rawling, rhoddwyd cymeradwyaeth mewn cyfarfod Cabinet blaenorol am £100 mil o fuddsoddiadau i'w gwneud i osod systemau solar PV ar 20 o ysgolion ar draws y fwrdeistref.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog fod:-

(i) yr argymhellion i beidio cefnogi'r cynigion sef cyfanswm o £203 mil, fel y manylir yn y tabl ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, i gael eu cytuno;

(ii) y cynigion sydd ar ôl, sef cyfanswm o £465 mil, i gael eu cymeradwyo am gyllid ar sail ad-daladwy Buddsoddi i Arbed.

## 5. TALIADAU GWYLIAU BLYNYDDOL

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cabinet mewn perthynas â thaliadau am wyliau blynyddol ar gyfer gweithwyr sy'n derbyn taliadau yn ychwanegol at eu cyflog sylfaenol, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â chyfraith achosion wrth roi sylw i Gytundeb Statws Sengl y Cyngor 2009.

Nodwyd ers 2010, mae nifer o achosion wedi cael eu hystyried gan y Llys Cyfiawnder Ewrop lle mae gweithwyr wedi dadlau y dylai eu tâl gwyliau gynnwys yr holl elfennau o'u tâl ac nid eu cyflog sylfaenol yn unig. Mae'r achosion hyn yn ymwneud â'r egwyddor pan fod gweithiwr ar wyliau blynyddol, dylent gael eu talu'r un peth a phan maent yn y gwaith.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog i argymell i'r

Cyngor i gymeradwyo'r Amcanion Lles a'r Datganiad Lles presennol a'u hadolygu ymhellach gan y weinyddiaeth newydd yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol.

**6. AILBROFFILIO’R RHAGLEN SATC A RHAGLEN CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI 2017/2018**

Mae'r adroddiad, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 28ain Chwefror 2017, â Grŵp Tasg Cartrefi Caerffili ar 16eg Chwefror 2017, yn amlinellu bod cynnydd parhaol wedi bod a llithriad yn y rhaglen gyflwyno SATC yn ystod 2016/17. Oherwydd hyn, mae wedi bod yn hanfodol i adolygu a diweddaru’r rhaglen ddarparu bresennol.

Nodwyd fod y mwyafrif o’r newidiadau gwaith mewnol wedi arwain at waith yn cael ei symud ymlaen yn y rhaglen. Mewn perthynas â’r rhaglen waith allanol, mae’r mwyafrif o newidiadau wedi arwain at weithfeydd yn cael eu symud i’r dyfodol. Mae’r dull Cynllun Tai Lloches nawr wedi newid gyda’r gweithfeydd yn cael eu darparu gan dimau mewnol. Mae’r gwaith nawr wedi cael ei gynnwys yn y blaenraglen waith.

Mae cyllideb Rhaglen Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai yn dyrannu'r adnoddau angenrheidiol ar sail cynllun costau Savills. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddiwygio'r dull hwn fel yn y dyfodol bydd yn seiliedig ar y gwir gostau yn cael eu cyflawni ar gyfer gwaith a wnaed sy'n rhoi rhagamcaniad mwy realistig o ran y gwariant cyllideb arfaethedig. Bydd y ffigyrau hyn yn cael eu hadolygu’n barhaol a’u hasesu i ddarparu’r rhagolygon mwyaf cywir posib ar gyfer cynllunio’r cyllid.

Nododd Cabinet bod y pryderon a godwyd gan gynrychiolwyr y Grŵp Tasg Cartrefi Caerffili a Phwyllgor Craffu Adnoddau a Pholisi ac mewn perthynas â chyfranogiad tenantiaid i gontractau yn y dyfodol a'r defnydd parhaus o'r Arolwg Savills. Nodwyd bod sicrwydd wedi cael ei roi, lle mae'n bosib bydd cyfranogiad Tenantiaid yn parhau â'r broses DPS newydd a bydd yr Arolwg Savills yn cael ei ddisodli'n fuan gyda chostau gwirioneddol ac nad yw bellach yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith mewnol, a sicrhawyd na fydd Arolygon Savills yn cael eu defnyddio ar ôl 6 mis, os bydd data digonol yn cael ei gasglu, ar gyfer gwaith allanol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, fod yr Ail-broffilio o Raglen SATC a Rhaglen Cyfalaf Cyfrif Refeniw Tai 2017/18 yn cael ei gymeradwyo.

**7. CYFALAF ADDYSG 2017/18**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y cynigion ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Addysg 2017/18 a chynigion a nodwyd ar gyfer dyrannu Cyllidebau Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18 yng nghyd-destun y rhaglen gyfalaf 3 blynedd 2016/17 - 2018/19.

Nodwyd bod yna bwysau cyllideb barhaol mewn perthynas â gwaith trydanol parhaus o fewn ysgolion a dyrannwyd swm ychwanegol o £2 miliwn, dros gyfnod o 3 blynedd 2014/15 - 2016/17 ac a ariennir o gyllidebau Rheoli Asedau, Iechyd a Diogelwch a Diogelwch yr Ysgol ac Ailosod Boeler, fodd bynnag, mae'r gweithfeydd hyn yn dod ymlaen yn dda.

Nododd y Cabinet y cynigion manwl ar gyfer 2017/18, a oedd yn cynnwys Llety Ychwanegol, Rheoli Asedau, Iechyd a Diogelwch, Diogelwch yr Ysgol, Ailosod Boeler yr Ysgol a Chyllid Refeniw/Cyfalaf, ac mae llawer ohonynt yn cael eu dyrannu ar sail gyllido 50/50 gyda'r ysgol berthnasol ac yn cynnwys nifer o uwchraddion a gwelliannau i'r ysgolion.

Nodwyd y byddai'r cynigion yn eu cyfanrwydd yn ymrwymo mwy neu lai'r gyllideb gyfan sydd

ar gael cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er mwyn darparu ar gyfer y ceisiadau flwyddyn ar gyfer cyllido, argymhellir ariannu £100,000 gan gyllideb rheoli ysgolion yn lleol wrth gefn i ychwanegu at y gyllideb 50/50.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog fod:-

(i) y cynigion i ddefnyddio’r cyllid Cyfalaf Addysg ar gyfer 2017/18, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad i gael eu nodi;

(ii) y cynigion i atodi’r gyllideb 50/50 gyda chyfraniad o £100,000 cyfraniad gan y cynllun Rheoli Ysgolion yn Lleol i gefnogi’r cynigion yn ystod y flwyddyn, i gael eu cytuno.

## 8. YMGYNGHORIAD – TREFNIADAU MYNEDIAD ARFAETHEDIG 2018/19

Roedd yr adroddiad, a gafodd ei hystyried gan Bwyllgor Craffu Addysg am Fywyd ar 27ain Chwefror 2017, yn gosod newidiadau arfaethedig i Drefniadau Mynediadau Ysgolion ar gyfer y flwyddyn academaidd 2018/19.

Nodwyd bod y broses ymgynghori wedi dod i ben ar 1af Mawrth 2017, ac, yn unol â'r Côd Derbyn i Ysgolion (2013), mae'n rhaid i'r trefniadau derbyn gael eu penderfynu erbyn 15fed Ebrill 2017. Nodwyd nad oes newidiadau arfaethedig i’r Trefniadau Mynediad a atodwyd i’r adroddiad.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn a chymeradwyodd yr Aelodau gwaith yr Adran, yn enwedig yng ngoleuni'r cau Ysgol Uwchradd Cwmcarn, ac nad oes unrhyw gynigion i newid y dalgylchoedd ac ar hyn o bryd nid oes digon o gapasiti ar gyfer niferoedd derbyn. Yn ogystal, nododd y Cabinet ar 28ain Chwefror 2017, cafodd 4500 o lythyron eu hanfon at rieni sydd wedi gwneud cais i gael derbyniad ac mae pob plentyn y mae ei riant wedi gwneud cais erbyn y dyddiad cau ar gyfer eu hysgol dalgylch wedi cael cynnig lle ar gyfer mis Medi 2017.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog i gymeradwyo’r Trefniadau Mynediad Arfaethedig ar gyfer 2018/2019.

## 9. YMGYNGHORIAD – CYNNIG I SEFYDLU YSGOL 3 – 18 RHYMNI

Roedd yr adroddiad, a gafodd ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Addysg am Fywyd ar 27ain Chwefror 2017, yn amlinellu’r cynigion fel rhan o’r broses ymgynghori.

Atgoffwyd yr aelodau fod, yn ei gyfarfod ar 30ain Tachwedd 2016, cytunodd y Cabinet i barhau gyda’r broses ymgynghori ffurfiol a gynhaliwyd rhwng y 3ydd Ionawr 2017, a’r 16eg Chwefror 2017, drwy gyfres o gyfarfodydd.

Nodwyd fod 13 ymateb ysgrifenedig wedi cael eu derbyn (3 o blaid o’r cynnig gyda 7 yn erbyn a 3 nad oedd yn teimlo’n gryf naill ffordd neu’r llall). Roedd yr ymatebion yn gyson i raddau helaeth gyda’r rhai a amlinellwyd yn ystod y cyfarfodydd ymgynghori ac yn cynnwys pryderon megis llwybrau diogel i ysgolion, cymysgu plant o'r ddwy ysgol, llwyddiant dros 3-18 o ysgolion yng Nghymru ac Addysgu ar draws ystod o oedran. Cafodd y prif faterion a godwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar eu crynhoi, gan gynnwys llawer nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ysgol 3-18, gan gynnwys meini prawf pellter.

Nododd Cabinet rai o fanteision cyfleuster 3-18 oedd yn cynnwys mynediad i ddisgyblion cynradd i'r cyfleusterau gwych yn yr ysgol uwchradd (labordai gwyddoniaeth, cyfleusterau chwaraeon ayb) ac effaith llai o drosglwyddo disgyblion o'r ysgol Gynradd i'r ysgol Uwchradd. Yn ogystal, cyfeiriwyd Aelodau at Atodiad 2 o'r adroddiad, a oedd yn uwcholeuo barn Estyn mewn perthynas â'r cynnig, gan nodi nad oedd unrhyw wrthwynebiad gan yr Arolygiaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau yn adroddiad y Swyddog ac wrth nodi'r sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a'r broses ymgynghoriy cytunwyd i symud i Hysbysiad Statudol.

**10. CYNNIG GOFAL PLANT GWEITHREDIAD CYNNAR**

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet i gymryd rhan yng Nghynllun Gweithredwyr Cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer ardal cynllunio gymunedol arfaethedig Dwyrain Canol y Cymoedd.

Yn 2016, fe wnaeth Maniffesto Llywodraeth Cymru (LlC) lansio cynnig Gofal Plant newydd o 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar am hyd at 48 wythnos y flwyddyn, ar gyfer rhieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio. Yn dilyn gwybodaeth fwy manwl am yr ardaloedd awdurdod lleol yn y peilot cychwynnol a gynlluniwyd ar gyfer mis Medi 2017, gofynnwyd i Gaerffili fel ardal ychwanegol i ymuno â gweithrediad cynnar cychwynnol y cynnig.

Mae LlC yn cydnabod bod gofal plant yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu teuluoedd sy'n gweithio yng Nghymru, ac mae datblygu cynnig gofal plant cyfoethocach yw'r brif flaenoriaeth. Mae cefnogi teuluoedd gyda gofal plant hyblyg a fforddiadwy o ansawdd uchel yn cefnogi adfywio economaidd, gall leihau'r pwysau ar incwm y teulu a helpu rhieni i gymryd rhan mewn gwaith, gan leihau'r risg y teulu o dlodi. Mae hefyd yn cefnogi lles plant drwy brofiadau cadarnhaol a gofal plant cyfoethog.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir yr wythnos, ar gyfer rhieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio, am hyd at 48 awr y flwyddyn erbyn diwedd eu cyfnod yn y Llywodraeth 2020/21 ac mae Caerffili wedi'u gwahodd yn ddiweddar i ymuno â'r Gweithredwyr Cynnar ar gyfer y cynnig Gofal Plant i ddechrau gweithredu ym mis Medi 2017.

Yn dilyn ystyriaeth fanwl, Cafodd Dwyrain Canol y Cymoedd ei ddewis fel yr ardal gynllunio gymunedol i nodi dalgylchoedd yr ysgolion i fod yn rhan o'r cynllun. Mae hyn oherwydd bod gan yr ardal ddigon o ddarpariaeth gofal plant sy'n bodoli eisoes, nifer sylweddol o deuluoedd sy'n gweithio a fyddai'n gymwys i fanteisio ar y cynnig gofal plant hwn, 17 o ysgolion cynradd yn y Saesneg a'r Gymraeg yn cynnig darpariaeth y Cyfnod Sylfaen Meithrin, 4 lleoliad gofal plant nas cynhelir sy'n cynnig lleoedd addysg gynnar cyfnod sylfaen (3 Cyfrwng Cymraeg ac 1 Cyfrwng Saesneg) yn ogystal â 7 dalgylch Dechrau'n Deg, a allai gefnogi'r rhai sy'n dioddef anfantais i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth, os yw costau gofal plant wedyn symud fel rhwystr. Mae gan Dwyrain Canol y Cymoedd gymysgedd o economïau gwledig a chanol tref ac felly byddai'n profi materion cludiant yn cysylltu darpariaeth gofal plant at y ddarpariaeth cyfnod sylfaenol lleol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, y dylid cytuno fod yr ardal gynllunio Cymunedol arfaethedig o Dwyrain Canol y Cymoedd i gael ei gyflwyno ar gyfer cynhwysiad yng nghynnig Gweithredwyr Cynnal Llywodraeth

Cymru.

## 11. RHAGLEN FLAENGYNLLUNIO GWAITH Y CABINET.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cadarnhad Blaen Raglen Waith y Cyngor am gyfnod o Ebrill 2017 i Fehefin 2017. Gofynnwyd i aelodau nodi fod, ers ei gyhoeddiad, nifer o newidiadau i Flaen Raglen Waith y Cabinet, a oedd yn cynnwys canslo'r cyfarfod a symudiad yr adroddiadau.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad a'r diweddariad llafar a chytunwyd y dylai'r fersiwn diweddaraf, fel y cyflwynwyd yn y cyfarfod, gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, a thrwy nodi'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod, i gymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.50 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 22ain Mawrth, 2017.

______________________

CADEIRYDD